# Y Creaduriaid Nwyfus

Yr Oriel Serameg, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, rhwng 29 Hydref 2011 a 29 Ionawr 2012



Curadu: Stuart Evans: Celfyddyd sain: Anna Evan: Geiriau: Elin ap Hywel




Mae'r arddangosfa hon yn cynrychioli ein 'hymyrraeth artistig' ddiweddaraf o safbwynt y Casgliad Serameg yn Aberystwyth. Mae'r strategaeth yn un sy'n cael ei defnyddio fwyfwy mewn amgueddfeydd ac orielau i daflu goleuni newydd ar gasgliadau ac i gynnig gwedd newydd ar ddosbarthu ac arddulliau arddangos confensiynol.

Yn yr arddangosfa *Ni Greaduriaid Nwyfus* mae tri artist o wahanol ddisgyblaethau yn dod ynghyd i gynnig profiad diddorol a fydd yn ysgogi meddwl ymwelwyr â'r Oriel Serameg. Mae'r artist a'r curadur Stuart Evans wedi dod â gwrthdrawiad creadigol o wahanol feysydd o fewn yr amgueddfa ynghyd – y diwylliant poblogaidd a'r diwylliant aruchel; anifeiliaid wedi'u stwffio a chrochenwaith stiwdio; serameg gyfoes a thraddodiadol. Wedi'i greu'n arbennig ar gyfer yr arddangosfa, mae *Y Greadigaeth* yn arddangosyn dyfeisgar o waith Anna Evans. Ynghyd â barddoniaeth a geiriau cofiadwy Elin ap Hywel sy'n cael eu harddangos ar ddrysau'r cypyrddau gwydr, mae'r testunau a'r sain yn cynnig haenau o ystyr ychwanegol. Mae'r arddangosfa yn ehangu profiad y gynulleidfa o gelf yr Oriel Serameg y tu hwnt i'w disgwyliadau cyffredin. Mae'r gweithiau hyn yn cynnwys rhagdybiaethau am serameg fel gwrthrychau gwerthfawr i gasglwyr ac arbenigwyr; serameg fel gwrthrych esthetig neu ffurf gerfluniol; a serameg fel ffurf gyfoes. Rydym wedi ymrwymo i'r agendâu hyn i gyd, ond mae arddangosfa fel hon yn cyflwyno gwrthrychau serameg yng nghyd-destun ehangach diwylliant, atgofion a threftadaeth materol.

Mae'n bosib mai cysylltiadau tenau neu ryfedd sydd rhwng y cyfosodiadau yn yr oriel, ond mae'r arddangosfeydd yn defnyddio pŵer y gwrthrychau i gario negeseuon ac i ysgogi emosiynau, gan gysylltu'r gorffennol a'r presennol mewn ffyrdd sy'n mynd y tu hwnt i syniadau rhesymegol a chonfensiynau amgueddfeydd.

Hoffwn ddiolch i Stuart Evans, yr ysbrydoliaeth a'r grym y tu ôl i'r arddangosfa *Ni Greaduriaid Nwyfus* a hefyd i'r artist a'r addysgwr, Anna Evans ac i'r bardd, Elin ap Hywel sydd wedi ymgymryd â gwaith newydd ar gyfer yr arddangosfa. Rydym hefyd yn arbennig o ddiolchgar i Amgueddfa Ceredigion sydd wedi mor hael yn benthyg llawer o'r gwrthrychau sydd yn y sioe.

Moira Vincentelli
Curadur y Casgliad a'r Archif Serameg
Tachwedd 2011

Mae pobl a chreaduriaid yn cydfyw â'i gilydd ar blaned fechan. Er ein bod yn rhannu llawer o'r un anghenion mae'r berthynas rhyngom yn aml yn un stormus. O gŵn anwes mewn cotiau ffwr i anifeiliaid pwn, yn gaseg flaen neu'n golomen hedd, rydym yn cynnig cariad a chysur i anifeiliaid, yn dinistrio eu cynefinoedd, yn eu haddoli, eu bwyta, yn llunio celfweithiau amdanynt ac yn eu prynu a'u gwerthu. Rydym hefyd yn ymwneud â nhw mewn miloedd o ffyrdd eraill.

Trwy gyfosod gweithiau o'r Casgliad Cerameg gydag arteffactau a delweddau o fyd pobl, mae'r arddangosfa hon yn awgrymu deialog rhwng gwahanol anifeiliaid a rhwng anifeiliaid a phobl. Mae'n gam tuag at archwilio'r cwestiwn: sut beth mewn gwirionedd yw'r berthynas rhwng ein byd ni a byd anifeiliaid?

Elin ap Hywel, Tachwedd 2011



Carem ddiolch i: staff yr Ysgol Gelf, staff Amgueddfa Ceredigion, Gwenllian Ashley, Richard Urbanski, Glen Ibbitson, Julian Meredith, Tony White, Rorik Smith, Meri Wells, Dr John Gee, Dr I-Chant Chang, Jenny Williamson, Ashley Ferguson, Lily Urbanska.

Yr Ysgol Gelf | School of Art
Prifysgol Aberystwyth University
Amgueddfa Ceredigion Museum
Oriel Serameg ag Archif
Ceramics Gallery and Archive
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

## Artistiaid:

**Stuart Evans:** Cynllunydd arddangosiadau yn Amgueddfa Ceredigion yw Stuart Evans. Mae hefyd wrthi'n astudio'n rhan amser am radd M.A. mewn Gwneud Printiau yn Ysgol Gelf Prifysgol Aberystwyth. Rhan o'i waith beunyddiol yw dehongli gwrthrychau, ac yn ystod y deng mlynedd ar hugain a aeth heibio mae wedi ymddiddori mewn archwilio'r elfen hon yn ei arferion gwaith celf ei hun. Mae'n gyfarwydd â'r casgliad tacsidermi yn yr amgueddfa, a chreodd *Ni Greaduriaid Nwyfus* yn ymateb i gasgliad y Brifysgol o waith cerameg ffigurol cyfoes.

**Anna Evans:** Graddiodd Anna Evans o Brifysgol Aberystwyth yn 2009, gyda gradd Anrhydedd yn y dosbarth cyntaf ym maes Celfyddyd Gain ac Addysg. Ar hyn o bryd mae'n Guradur Cynorthwyol yn Amgueddfa Ceredigion. Mae ei gwaith yn archwilio'r berthynas rhwng cyfathrebu 'dynol' a hunaniaeth. Cysyniadau sy'n llywio ei harferion gwaith; caiff y deunyddiau, y cyd-destun a'r broses a ddefnyddir wrth lunio'r gwaith eu diffinio gan y cwestiynau penodol sy'n cael eu harchwilio. Yn aml, bydd creu dialog yn elfen ganolog yn ei harferion gwaith hefyd. Mae *Y Greadigaeth* yn ddarn sain esblygol a grëwyd ar gyfer *Ni Greaduriaid Nwyfus*. Mae'n cyflwyno hanesion dyn am y greadigaeth, gyda phwyslais arbennig ar ddehongliadau o'r hyn sy'n 'anifeilaidd'.

**Elin ap Hywel:** Bardd a chyfieithydd yw Elin ap Hywel. Disgrifiwyd ei barddoniaeth gan Robert Minhinnick fel un sy'n 'gweld pethau breuddwydiol yn y pethau cartrefol'. Ar gyfer *Ni Greaduriaid Nwyfus* bu'n creu cerddi sy'n edrych ar y berthynas rhwng pobl ac anifeiliaid yng nghyd-destun rheoli, elwa, dysgu, creu stereoteipiau a chyfnewid profiadau. Aeth ati hefyd i fritho'r oriel â geiriau unigol sy'n gwahodd yr ymwelydd i fyfyrio am eu hamrywiol ystyron posib o safbwynt pob math o greaduriaid – gan gynnwys 'dyn'.



## Ni Greaduriaid Nwyfus & Cynnwys:

Ulla Viotti, *Trace of Life*, Casgliad y Brifysgol

Stuart Evans , ffosil o San Antonio Tecsas, ar fenthyg

Joanna Mallin-Davies, *The Chase*, Casgliad y Brifysgol

Dai grocodeil, tacsidermi, ar fenthyg gan Gwenllian Ashley

Ladi Kwali, pot Gwari, Casgliad y Brifysgol

John Wesley, Staffordshire flat back, Amgueddfa Ceredigion

Angélica Vásquez Cruz, *Entre Cactus y Nahuales* (Ymhlith cacti ac enaid anifeiliaid) & *Virgin of Loneliness*, Casgliad y Brifysgol

Geoffrey Fuller, *Adam and Eve*, Casgliad y Brifysgol

Croen neidr, Amgueddfa Ceredigion

Anifeiliaid bach pren o Arch Noa, Amgueddfa Ceredigion

David Cleverley, *Adam Naming the Animals*, Casgliad y Brifysgol

Tegan ar ffurf eliffant plwm, Amgueddfa Ceredigion

Stuart Evans, *We Spirited Creatures,cyfrwng cymysg gyda phlastig* Mickey Mouse

Udai Lal Kuhmar, *Durga*, Casgliad y Brifysgol

Alan a Ruth-Barrett Danes, *Cabbage Kingdoms*, Casgliad y Brifysgol

Geoff Bond, *Tondino*, Casgliad y Brifysgol

Tylluan frech, tacsidermi, (gyda Sbectol Un Llygad gan Ashley Ferguson)

Tony White, 18 ŵy racw, ar fenthyg

Melanie Brown, *Family Portrait*, Casgliad y Brifysgol

Meri Wells, *Wolf in Sunglasses*, ar fenthyg

Ffigwr metel gydag esgidiau pren, Amgueddfa Ceredigion

Pen llwynog, tacsidermi a het i hela, Amgueddfa Ceredigion

Meri Wells, *Two Pelts*, ar fenthyg

Stuart Evans, 6 ffotograff Road Kill mewn ffrâm, ar fenthyg

Rorik Smith, crwyn tair gwahadden, ar fenthyg

Catrin Howell, *Twr Tywyll*, Casgliad y Brifysgol

Emma Rogers, *Hare*, Casgliad y Brifysgol

Julian Meredith, *print Road Kill o dylluan wen, ar fenthyg*

Natalie Dias, *Pan* Casgliad y Brifysgol

Michael Flynn, *Fallen leaf*, Casgliad y Brifysgol

Pen hwrdd, tacsidermi, Amgueddfa Ceredigion

Susan Halls, *Fish Dog* Casgliad y Brifysgol

Dora Billington, *Owl*, Casgliad y Brifysgol

Dwrgi, tacsidermi, Amgueddfa Ceredigion

Stuart Evans, cloc ac allwedd, ar fenthyg

Crychydd, tacsidermi, Amgueddfa Ceredigion

Frances Woodley, *Bird Head*, Casgliad y Brifysgol

Ysgerbwd fulfran, Casgliad y Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Aberystwyth

Martin brothers, *Wally Bird*, Casgliad y Brifysgol

Susan O'Byrne, *Chaffinches*, Casgliad y Brifysgol

Socan Eira, Tacsidermi, Amgueddfa Ceredigion

Ashley Ferguson, Darllenfeydd

Grisiau pren a thylwythen deg, Amgueddfa Ceredigion

Frances Woodley, *Monkey with Baboon Mask*, Casgliad y Brifysgol

Ysgerbwd mwnci, Casgliad y Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Aberystwyth

Glen Ibbitson, *Claw 3*, , llun, ar fenthyg

Taja, *Crab*, Casgliad y Brifysgol

Plât â phrint o arth yn cael ei hela wedi'i droslunio, Gwenllian Ashley, ar fenthyg

Claude Michel Clodion, satyr, nymff a cheriwb, Casgliad y Brifysgol

Ruth Barrett-Danes, *Dancing Contest*, Casgliad y Brifysgol

Stôl o ffwr a bag llaw o groen crocodeil, Amgueddfa Ceredigion

Jenny Williamson, *Two Thrown Pots*, ŵy estrys a phenglog dafad, ar fenthyg

## Metamorffosis

Trychfil o ddyn oedd Wncwl Trefor,
mewn teulu o gŵn defaid du-a-gwyn.

Yng nghanol eu cyfarth brwd am brisiau stoc,
*Ffermio* a'r Ffair Aeaf,
ymgilio wnâi Trefor:
sythu ei sbectol,
chwythu ei drwyn yn ofalus,
a throi ei deimlyddion
tua'i gyfrifon.

Tra roedd y pac yn gorwedd yn Nadoligaidd swrth
ar y rŷg o flaen y lle tân
yn llawn teisen gri a 'diferyn o bort',
eu hasennau'n fegin i'w hanadlu swrth

roedd Trefor, ynghyd â'i gyd-forgrug
yn llwybreiddio'i ffordd yn ôl yn reit glou
tua'u nyth yn y banc.

'Wff!' meddai'r cenawon bach powld,
gan wybod, rhywsut, yn eu dŵr
bod Wncwl Trefor yn Wahanol:
ond wffiodd Trefor ddim yn ôl.

Pan fu farw'r Ast,
â'i gên yn wyn a'i llygaid yn bŵl
wedi'r holl arthio ac ysgyrnygu (rhaid cadw trefn)
digwyddodd rhywbeth rhyfedd:

Prynodd y trychfil docyn unffordd i Frisco,
stwffio'i draed i'w sgidiau sodlau uchel lliw arian,
agor ei adenydd spandex ysblennydd,
a hedfan.

## Adroddiad Blodeuwedd

Erbyn hyn, mae'n falch gen i ddeud,
mae'r cyfan yn dechrau dod i drefn;
rwy'n dechrau ymgynefino
ag adareiddrwydd.
(Rwy'n teimlo'n awr, ers rhyw ganrif neu ddwy,
bod hedfan yn dod yn haws. Mae'r cydbwysedd
rhwng yr adain dde a'r chwith wedi gwella
a'r broses o lanio'n esmwythach o lawer.
*Aerodynamig*. Dyna'r gair.)

Mae'n gam mawr, edrych yn ôl.
Weithiau, bydd y gorffennol
yn gwasgu yn gas ar fy nghylla,
yn fwled drom sy'n llawn esgyrn a blew,

yn enwedig ar nosweithiau o haf –
ar yr eiliad honno, rhwng cyfnos a gwyll
pan fo'r byd yn rhuthr o rwysg adenydd
a bywyd mor fyr â'r cof am lygoden,
yn wich fechan rhwng dau dywyllwch.

Ond bryd hynny mi fydda' i'n cofio:
doeddwn i ddim yn leicio'r ffordd
byddai'r gynau sidan pob-lliw
yn glynu wrth fy ystlys yn y gwres
ar y prynhawniau tragwyddol hynny
pan ddodai Llew ei law ar fy nglin.

Ydyn, mae plu yn well o lawer,
yn sych ac ysgafn, fel dail neu flodau.
Dydyn nhw ddim yn dangos y gwaed.
Maen nhw'n haws o lawer i'w cadw'n lân.

Cerddi: Elin ap Hywel

Ffotograffau: Richard Urbanski, Moira Vincentell, Stuart Evans









## O werth y croen

Gwerth croen ych, *ei nerth gwydn*: wyth geiniog.
Gwerth croen hydd: wyth geiniog.
Gwerth croen buwch, *flith, hufennog*: saith ceiniog.
Gwerth croen ewig: saith ceiniog.

Croen dafad, a gafr, iwrch neu iyrchell, ceiniog yr un.
Gwerth croen cadno: wyth geiniog.
Gwerth croen dyfrgi, *ei wybod am byllau'r afon*:
wyth geiniog.

Gwerth croen blaidd, wyth geiniog.
Gwerth croen belau, y manflew disglair: pedair ceiniog
ar hugain.

Gwaith porthor y brenin: taenu crwyn
y creaduriaid a laddwyd ar lawr llys.
Yn dâl am hyn: ceiniog y croen.

Am sarhau porthor y brenin: chwe buwch,
cant ac ugain o geiniogau arian gloyw.
*Eu llygaid eu safnau eu dannedd eu crafangau.*

## Cylchu

*Un diwrnod collodd Big Ben bum munud pan glwydodd*
*haid o ddrudwennod ar fys mawr y cloc.*

Pe bai'r drudwennod sy'n chwyrlïo
Yn drobwll hedegog uwch y prom
Mewn cylchoedd sy'n tynhau o hyd

Yn fuddai sy'n corddi ein munudau,
Beth fyddai'n digwydd i'n dyddiau?

Beth petai curo'r adenydd,
Unplygrwydd yr adar a'u nod, yn swyn

A roddai inni'r pum munud bach
Sy'n brin yn ein bywydau,
Y pum munud a addawn o hyd
I'n cariadon a'n neiniau a'n plant —

A beth petai'r munudau hynny'n troi'n freuddwyd am hedfan,
Yn gysur pluog o berthyn,
Yn nerth gwybod ein pwrpas,
Yn dindroi at ryw nod?